- Afon Rhyd Culvert would be a 53m long, reinforced concrete box culvert structure, 3.2m wide, 2.4m high, carrying the Scheme over the Afon Rhyd watercourse.
- Tŷ'n Llan Overbridge would be a 51m long, 8.5m wide, 5.3m high, 3 span pre-cast pre-stressed concrete beam bridge carrying a minor road, Tŷ'n Llan, over the Scheme.
- Dinas Accommodation Underpass would be a 19.5m long reinforced concrete box underpass, 4.5m wide, 4.5m high, providing access for Dinas Farm under the Scheme.
- Afon Gwyrfaï Viaduct would be a 260m long, 15.7m wide, 8 span continuous steel concrete composite multi-beam bridge carrying the Scheme over the Afon Gwyrfaï floodplain.
- Pont Llydiart Gwyn would be a 25m long reinforced concrete box underbridge, 7.2m wide, 5.3m high, carrying the Scheme over the unnamed road between Bontnewydd and Llanfaglan.
- Pont Cefnwerthyd would be a 17m long single span pre-cast pre-stressed concrete beam bridge, 19.5m wide, carrying the Scheme over the existing Welsh Highland Railway, Lon Eifion Recreation Route and accommodation access track and occupation level crossing.
- Pont Ceriw Non-Motorised User (NMU) Overbridge would be a 23.5m long single span pre-cast pre-stressed concrete beam bridge, 3.8m wide, providing access over the Scheme for pedestrians and cyclists only.

- Byddai Tanbont Pont Bryn Mafon yn strwythur bocs concrit cyfnerthedig 22m o hyd, 7.2m o led, 5.3m o uchder, yn cludo'r Cynllun dros Ffordd Pen y Bryn, wedi'i hail-alinio.
- Byddai Cwlfert Rhif 1 Bryn Mafon yn strwythur cwlfert bocs concrit cyfnerthedig 25m o hyd, 1.8m o led, 1.8m o uchder, yn cludo'r Cynllun dros aliniad hen Ffordd Pen y Bryn i gynnal cysylltedd ac athreiddedd i ystlumod.
- Byddai Traphont Pont Afon Seiont Newydd yn bont dec ysgol dur a choncrit cyfansawdd barhaus 4 rhychwant 148m o hyd, 18.7m o led yn cludo'r Cynllun dros orlifdir Afon Seiont a Pharc Gwyliau Glan Gwna.
- Byddai Tanbont A4085 Ffordd Waunfawr yn bont trawst concrit wedi'i chastio a'i phrofi dan bwysau ymlaen llaw un rhychwant 10m o hyd, 18.7m o led, 5.3m o uchder, yn cludo'r Cynllun dros A4085 bresennol Ffordd Waunfawr.
- Byddai Tanffordd FP36 yn strwythur bocs concrit cyfnerthedig 23m o hyd, 3m o led, 2.3m o uchder, yn cludo'r Cynllun dros lwybr troed FP36.
- Byddai Llwybr Gwartheg Afon Cadnant yn strwythur bocs concrit cyfnerthedig 26m o hyd, 3.4m o led, 2.7m o uchder, yn cludo'r Cynllun dros fynedfa breifat ac Afon Cadnant.
- Byddai Trosbont Ffordd Bethel yn bont trawst concrit wedi'i chastio a'i phrofi dan bwysau ymlaen llaw un rhychwant 23.5m o hyd, 10.3m o led, 5.7m o uchder, yn cludo B4366 Ffordd Bethel dros y Cynllun.
- Pont Bryn Mafon Underbridge would be a 22m long reinforced concrete box structure, 7.2m wide, 5.3m high, carrying the Scheme over the realigned Penybryn Road.
- Bryn Mafon Culvert No1 would be a 25m long reinforced concrete box culvert structure, 1.8m wide, 1.8m high, carrying the Scheme across the alignment of the former Penybryn Road to preserve bat connectivity and permeability.
- Pont Afon Seiont Newydd Viaduct would be a 148m long, 18.7m wide, 4 span continuous steel concrete composite ladder deck bridge carrying the Scheme over the Afon Seiont floodplain and the Glan Gwna Holiday Park.
- Waunfawr Road A4085 Underbridge would be a 10m long, 18.7m wide, 5.3m high, single span pre-cast pre-stressed beam bridge carrying the Scheme over the existing A4085 Waunfawr Road.
- FP36 Underpass would be a 23m long reinforced concrete box structure, 3m wide, 2.3m high, carrying the Scheme over footpath, FP36.
- Afon Cadnant Cattle Creep would be a 26m long reinforced concrete box structure, 3.4m wide, 2.7m high, carrying the Scheme over a private means of access and the Afon Cadnant.
- Bethel Road Overbridge would be a 23.5m long, 10.3m wide, 5.7m high, single span pre-cast pre-stressed concrete beam bridge carrying B4366 Bethel Road over the Scheme.

Hefyd, ceir 14 o strwythurau cwlfert pibell sydd â rhychwant cyffredinol o 1.8m yn cludo'r Cynllun dros gyrsiau dŵr eraill.

In addition, there are 14 no pipe culvert structures generally having a span of 1.8m carrying the Scheme over further watercourses.

Defnyddwyr Difodur

Byddai'r Cynllun yn effeithio ar nifer o hawliau tramwy cyhoeddus i'r de ac i'r gorllewin o Gaernarfon. Byddai gwyradau a chroesfannau dros dro yn cael eu darparu yn ystod y cam adeiladu, tan fod y llwybrau gwyrad parhaol ar gael i'w defnyddio.

Ni fydd mynediad at y ffordd ddi-ddosbarth bresennol rhwng Bontnewydd a Llanfaglan o bwynt y groesffordd â'r Cynllun. Bydd pont newydd i ddefnyddwyr ddifodur yn unig yn cael ei darparu dros y ffordd osgoi gan gyfyngu teithio drwodd i gerddwyr a beicwyr yn unig.

Byddai'r holl lwybrau wedi'u gwyro yn 3m o led er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru).

Ar ôl ei agor, byddai'r Cynllun yn lleihau traffig ar yr A487 bresennol, B4366 Ffordd Bethel, y ffordd ddi-ddosbarth rhwng Bontnewydd a Chylchfan Caeathro a'r ffordd ddi-ddosbarth i'r gogledd-ddwyrain o Gaeathro. Byddai llifoedd traffig a cherbydau ochrau uchel yn lleihau ar hyd y llwybrau hyn hefyd. Byddai hyn o fudd mawr i ddefnyddwyr difodur gan leihau achosion o wahanu gan draffig ffordd.

Defnydd Tir

Byddai angen tua 71.36 Hectar (ha) o dir ar gyfer y Cynllun hwn; Byddai 55.64ha yn dir amaethyddol, a byddai tua 28-30ha o hwnnw'n ansad Gradd 3a, h.y. y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Byddai 23 o fusnesau amaethyddol yn cael eu heffeithio i raddau amrywiol yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl cwblhau'r Cynllun.

Byddai angen tua 48.74ha arall ar gyfer trwyddedau hanfodol i wneud gwaith adeiladu ac ar gyfer gweithrediadau rheoli traffig dros dro. Byddai'r mannau hyn yn cael eu meddiannu am gyfnod o tua 30 mis cyn cael eu dychwelyd i'w defnydd gwreiddiol a'u rhoi yn ôl i'r perchnogion.

Bydd angen mwy na 3.24ha arall ar i adeiladu a chynnal a chadw nodweddion peirianeg a lliniaru amgylcheddol fel ffensys mamaliaid a draeniad a hawddfrentiau.

Non-motorised Users

The Scheme would affect a number of public rights of way to the south and west of Caernarfon. Temporary diversions and crossing places would be provided during the construction phase, until the permanent diversion routes were available to use.

The existing unclassified road between Bontnewydd and Llanfaglan is to be stopped up at the point of intersection with the Scheme. A new non-motorised users only bridge will be provided over the bypass restricting through travel to pedestrian and cyclists only.

All diverted routes would be 3m wide to comply with the requirements of the Active Travel (Wales) Act.

Once open, the Scheme would reduce traffic on the existing A487, the B4366 Bethel Road, the unclassified road between Bontnewydd and Caeathro Roundabout and the unclassified road North East of Caeathro Roundabout. Traffic flows and high sided vehicles would also reduce along these routes. This would greatly benefit non-motorised users by reducing road traffic severance.

Land Use

The Scheme would require approximately 71.36 Hectares (ha) of land; 55.64ha would be agricultural land, of which about 28-30ha is Grade 3a quality, i.e. best and most versatile agricultural land. 23 agricultural businesses would be affected to varying degrees both during construction and following completion of the Scheme.

Approximately a further 48.74ha would be required for essential licences to undertake construction works and temporary traffic management operations. These areas would be occupied for a period of about 30 months before being returned to their original usage and handed back to the owners.

To construct and maintain engineering and environmental mitigation features such as mammal fencing and drainage features, easements over a further 3.24ha would be required.

Amodau'r Tir

Cynhaliwyd ymchwiliad tir cynhwysfawr i hysbysu camau dylunio'r Cynllun er mwyn sicrhau bod dyluniad strwythurau a gwrthgloddiau yn briodol ar gyfer y ddaearog bresennol.

Mae daearog gogledd-orllewin Cymru ymhlith y mwyaf cymhleth yn y DU, yn amrywio mewn oedran o 600 miliwn mlwydd oed i ddyddodion Tir Gwneud diweddar, fel safleoedd tirlenwi. Mae daearog solet o dan y Cynllun yn cynnwys Carreg Laid tua 450 miliwn mlwydd oed yn bennaf; gellir gweld hyn yn Chwarel Seiont. Caiff y creigiau hyn eu croestorri gan greigiau folcanig hyd at 650 miliwn mlwydd oed yn nhrychfa Plas Menai, Traphont Afon Gwyrfa, a rhychwantau Deheuol y Cynllun i'r Gorllewin o Lanwnda.

Cydnabuwyd nifer o ffawtiau daearogol ar draws y safle; mae'r rhain yn ymwneud â Chymhlyg Ffawtiau Afon Menai ac fe'u gwelir yng nghyffiniau trychfa Plas Menai a Thraphont Afon Gwyrfa.

Caiff daearog solet ei chuddio i raddau helaeth gan ddyddodion Rhewglai a ddyddodwyd yn ystod yr oes iâ diwethaf. Mae'n hysbys hefyd bod Rhewglai yn fwy nag 20m o drwch mewn rhai manau. Mae dyddodion llifwaddodol (afon) yn bresennol o gwmpas Afon Gwyrfa ac Afon Seiont. Mae'n hysbys bod Tir Gwneud yn bresennol hefyd; mae hwn yn gysylltiedig â'r safle tirlenwi hanesyddol sy'n ffinio Ystâd Ddiwydiannol Cibyn.

Yn gyffredinol, nid yw amodau'r tir yn cyflwyno heriau sylweddol i ddylunio ac adeiladu, ond amlygir y canlynol fel ardaloedd o arwyddocâd geodechnegol;

- Trychfeydd Plas Menai – Potensial o gloddiadau anodd yn y trychfeydd mawr;
- Ffordd Bethel – amodau tir meddal;
- Traphont Afon Gwyrfa – Creigwely hynod doredig a lefelau dŵr daear uchel.

Nid yw'r ardaloedd hyn o arwyddocâd geodechnegol yn annormal a chânt eu rheoli gan ddefnyddio technegau peirianeg confensiynol.

Ground Conditions

A comprehensive ground investigation has been undertaken to inform the Scheme's design stages to ensure that the design of structures and earthworks are appropriate for the existing geology.

The geology of North West Wales is amongst the most complex in the UK, ranging in age from >600 million years old to recent Made Ground deposits such as landfill. Solid geology underlying the Scheme consists predominantly of Mudstone approximately 450 million years old; this is exhibited in the Seiont Quarry. These rocks are intersected by volcanic rocks up to 650 million years old at the Plas Menai cutting, the Afon Gwyrfa Viaduct, and at the Southern extents of the Scheme to the West of Lanwnda.

A number of geological faults have been recognised across the site; these relate to the Menai Straight Fault Complex and are exhibited in the vicinity of the Plas Menai cutting and the Afon Gwyrfa Viaduct.

Solid geology is largely obscured by Glacial Till deposits which were deposited during the last ice age. Glacial Till is known to be greater than 20m thick in some locations. Alluvial (river) deposits are present around the Afon Gwyrfa and Afon Seiont. Made Ground is also known to be present; this relates to the historic landfill skirting the Cibyn Industrial Estate.

In general, the ground conditions do not represent significant challenges to design and construction. However, the following are highlighted as areas of geotechnical significance;

- Plas Menai cuttings – Potential for difficult excavation in the large cuttings;
- Bethel Road – soft ground conditions;
- Afon Gwyrfa Viaduct – Highly fractured bedrock & high groundwater levels.

These areas of geotechnical significance are not abnormal and will be managed using conventional engineering techniques.

Draeniad

Byddai'r Cynllun yn croesi pedair prif afon, Afon Gwyrfai, Afon Seiont, Afon Cadnant ac Afon Rhyd. Byddai'r ffordd newydd yn cael ei draenio trwy ddraenio 'dros yr ymyl' i bantiau ymyl ffordd yn bennaf.

Byddai un ar bymtheg o byllau arafu yn cael eu hadeiladu ar hyd y Cynllun. Byddai'r pyllau'n casglu ac yn trin dŵr ffo wyneb y briffordd. Byddai'r pyllau hefyd yn cyfyngu ar faint o ddŵr sy'n arllwys i gyrsiau dŵr presennol trwy gyfyngu'r llifoedd dŵr ffo ar yr arwyneb – gan sicrhau nad yw cyfraddau dŵr ffo ddim uwch nag ar hyn o bryd. Byddai'r pyllau hefyd yn cynnwys falfiau cau brys fel y byddai'r perygl o lygredd o ollyngiadau yn cael ei leihau trwy gyfyngiant.

Byddai llifoedd cyrsiau dŵr presennol yn cael eu cynnal trwy ddarparu cwlfertau o dan y Cynllun.

Mae asesiad risg ansawdd dŵr ac asesiad canlyniadau llifogydd wedi dod i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd mân-ostyngiadau i ansawdd dŵr a chynnydd lleol i berygl o lifogydd wrth adeiladu'r Cynllun.

Goleuadau Ffordd

Ni fyddai goleuadau ffordd yn cael eu darparu ar hyd y rhan fwyaf o'r Cynllun. Fodd bynnag, byddai goleuadau newydd yn cael eu darparu wrth bob cylchfan newydd. Hefyd, byddai goleuadau'n cael eu darparu yn y lleoliadau canlynol:

- Yn syth i'r gogledd o Gylchfan arfaethedig A487 y Goat;
- Y ddwy ffordd ochr sy'n agosáu Cylchfan newydd Meifod;
- Cangen orllewinol yr A4086 i mewn i Gaernarfon;
- Pob ffordd agosáu Cylchfan Plas Menai.

Drainage

The Scheme would cross four main rivers, the Afon Gwyrfai, Afon Seiont, Afon Cadnant and Afon Rhyd. Drainage of the new road would largely be through 'over the edge' drainage to roadside swales.

Seventeen attenuation ponds would be constructed along the Scheme. The ponds would collect and treat the highway surface water run-off. The ponds would also restrict the amount of water discharging into existing watercourses by limiting the surface water run-off flows – ensuring that runoff rates are no greater than existing. The ponds would also include emergency shut off valves so that the risk of pollution from spillages would be reduced through containment.

Existing watercourse flows would be maintained by providing culverts beneath the Scheme.

A water quality risk assessment and flood consequence assessment have concluded that there will likely be minor decreases in water quality and localised increases in flood risk during Scheme construction.

Road Lighting

Road lighting would not be provided along the majority of the Scheme. However, new lighting would be provided at all new roundabouts. In addition, lighting would be provided at the following locations:

- Immediately north of the proposed A487 Goat Roundabout;
- Both side road approaches to the new Meifod Roundabout;
- The western arm of the A4086 into Caernarfon;
- All new approaches to Plas Menai Roundabout.

Cyfleustodau Cyhoeddus

Mae holl berchnogion a gweithredwyr y gwahanol wasanaethau dŵr o'r prif gyflenwad, carthffosydd, telathrebu, nwy, a thrydan wedi cael eu hymgyngori i ganfod sut y byddai eu hoffer yn cael ei effeithio gan y Cynllun ac i'w galluogi i gynllunio unrhyw wyriadau sydd eu hangen.

Adeiladu

Rhagwelir y bydd y cyfnod adeiladu yn para 30 mis. Ar ôl adeiladu, byddai'r gwaith lliniaru amgylcheddol yn cael ei reoli a'i fonitro am bum mlynedd.

Ar ddechrau'r gwaith adeiladu, byddai ffensys yn cael eu rhoi o amgylch y safle a byddai'r gwaith o glirio'r safle yn cychwyn.

Byddai'r holl waith yn cael ei reoli a'i drefnu'n ofalus yn unol â'r cyfyngiadau amgylcheddol perthnasol. Byddai trwyddedau rhywogaeth a warchodir yn cael eu sicrhau ar gyfer ystlumod a phathewod yn ôl yr angen. Oni bai fod nodweddion penodol fel setiau, gwalau neu fannau gorffwyso yn cael eu nodi a'u heffeithio, mae'n annhebygol y bydd angen trwyddedau ar gyfer moch daear, dyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr. Byddai ceisiadau caniatâd dros dro a pharhaol ar gyfer draenio a cheisiadau caniatâd amgylcheddol eraill gan gynnwys caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig yn cael eu sicrhau lle y byddai hynny'n ofynnol.

Byddai gwaith ar y prif wrthgloddiau yn cael ei flaenoriaethu trwy gydol 2018 fel y byddai'r gwaith ar y prif bontydd a chwlfertau'n cychwyn yn ystod haf 2018 ac yn parhau trwy 2019.

Ni fyddai unrhyw eiddo'n cael ei ddymchwel i ganiatáu i'r Cynllun gael ei adeiladu.

Byddai'r brif ffordd osgoi a'r holl gyffyrdd yn cael eu hadeiladu i ffwrdd o'r rhwydwaith ffyrdd presennol. Byddai traffig yn cael ei reoli i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar y cyhoedd sy'n teithio. Byddai camau rheoli traffig wedi'u cyfyngu i'r cysylltiadau â'r rhwydwaith presennol yng Nghylchfan y Goat, Cylchfan Plas Menai a Chylchfannau arfaethedig Meifod a Chibyn.

Public Utilities

All owners and operators of the various water mains, sewers, telecommunications, gas, and electricity services have been consulted to establish how their equipment would be affected by the Scheme and to allow them to plan any diversions required.

Construction

The construction phase is anticipated to extend for 30 months. Following construction the environmental mitigation would be managed and monitored for five years.

At the start of construction the site would be fenced and site clearance would commence.

All works would be carefully managed and programmed in accordance with the relevant environmental constraints. Protected species licences would be obtained for bats and dormice as necessary. Unless specific features such as setts, holts and resting-up sites are identified and affected, licenses for badgers, otters or water voles are unlikely to be required. Temporary and permanent drainage and other environmental consents including listed building consent would be obtained, where required.

Works on the main earthworks would be prioritised throughout 2018 so that the construction of the main bridges and culverts could commence in the Summer of 2018 and progress through 2019.

No properties would be demolished to enable construction of the Scheme.

The main bypass and all the junctions would be constructed away from the existing road network. Traffic would be managed to minimise disruption to the travelling public. Traffic management would be limited to the connections with the existing network at Goat Roundabout, Plas Menai Roundabout and the proposed Meifod and Cibyn Roundabouts.

Beth sy'n Digwydd i'r Ffordd Bresennol?

Byddai'r rhan fwyaf o'r Cynllun yn cael ei adeiladu all-lein a byddai'r ffordd bresennol yn parhau i ddarparu mynediad at a thrwy Gaernarfon a Bontnewydd. Byddai statws cefnffordd rhannau presennol o'r gefnffordd rhwng cylchfannau terfyn y Cynllun yng Nghylchfannau'r Goat a Phlas Menai yn cael ei dynnu. Byddai perchnogaeth a chyfrifoldeb cynnal a chadw'r rhannau hyn yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i Gyngor Gwynedd wedyn.

Dyma'r rhannau y byddai eu statws cefnffordd yn cael ei dynnu:

- Hyd o tua 3.13 cilomedr (1.94 milltir) yn cychwyn ar gefnffordd bresennol yr A487 wrth ynys rannu cangen ogledd-ddwyreiniol Cylchfan y Goat ac yna'n ymestyn mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol ac yna gogleddol ac yn cynnwys Cylchfan Mynegbost a Chylchfan Bontnewydd gan derfynu yn y mynediad at yr eiddo a adnabyddir fel Tyddyn Gwyn.
- Hyd o tua 5.96 cilomedr (3.70 milltir) yn cychwyn ar gefnffordd bresennol yr A487 yn yr eiddo a adnabyddir fel Gwesty Parc ac yna'n ymestyn mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol gan gynnwys Cylchfan Pont Seiont, cerbyttffordd tua'r gogledd a thua'r de ar hyd Ffordd y De, Cylchfan Dewi Sant, a'r gylchfan a adnabyddir yn lleol fel Cylchfan Morrison's ac yna mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol gan derfynu yn ei chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Plas Menai.
- Hyd slipffordd ymadael yr A487 tua'r gogledd am bellter o 0.15 cilomedr (0.10 milltir) o'i chyffordd â phrif gefnffordd yr A487 i gerbyttffordd gylchredol Cylchfan A487/A4086 Caernarfon.
- Hyd slipffordd ymuno yr A487 tua'r de am bellter o 0.13 cilomedr (0.08 milltir) o gerbyttffordd gylchredol Cylchfan A487/A4086 Caernarfon hyd at ei chyffordd â phrif gefnffordd yr A487.

What Happens to the Existing Road?

The majority of the Scheme would be constructed off-line and the existing road would remain to provide access to and throughout Caernarfon and Bontnewydd. The existing trunk road lengths between the Scheme terminal roundabouts at Goat Roundabout and Plas Menai would be de-trunked. Ownership and maintenance of these lengths would then be transferred from the Welsh Ministers to Gwynedd Council.

The extents of the de-trunking would be:

- A length about 3.13km (1.94 miles) commencing on the existing A487 trunk road at the splitter island of the north-east arm of Goat Roundabout and then extending in a north easterly and then a northerly direction and including Fingerpost Roundabout and Bontnewydd Roundabout and terminating at the access to the property known as Tyddyn Gwyn.
- A length about 5.96km (3.70 miles) commencing on the existing A487 trunk road at the property known as Gwesty Parc and then extending in a north westerly direction including Pont Seiont Roundabout, northbound and southbound carriageways along South Road, St David's Roundabout, and the roundabout known locally as Morrison's Roundabout and then in a north easterly direction terminating at its junction with the circulatory carriageway of Plas Menai Roundabout.
- A length of the A487 northbound exit slip road for a distance of 0.15km (0.10 miles) from its junction with the A487 main trunk road to the circulatory carriageway of the Caernarfon A487/A4086 Roundabout.
- A length of the A487 southbound entry slip road for a distance of 0.13km (0.08 miles) from the circulatory carriageway of the Caernarfon A487/A4086 Roundabout to its junction with the A487 main trunk road.

- Hyd slipffordd ymuno yr A487 tua'r gogledd am bellter o 0.14 cilomedr (0.08 milltir) o gerbyttfordd gylchredol Cylchfan A487/A4086 Caernarfon i'w chyffordd â phrif gefnffordd yr A487.
- Hyd slipffordd ymadael yr A487 tua'r de am bellter o 0.17 cilomedr (0.10 milltir) o brif gefnffordd yr A487 i gerbyttfordd gylchredol Cylchfan A487/A4086 Caernarfon.
- A length of the A487 northbound entry slip road for a distance of 0.14km (0.08 miles) from the circulatory carriageway of the Caernarfon A487/A4086 Roundabout to its junction with the A487 main trunk road.
- A length of the A487 southbound exit slip road for a distance of 0.17km (0.10 miles) from the A487 main trunk road to the circulatory carriageway of the Caernarfon A487/A4086 Roundabout.



Cylchfan Plas Menai

Plas Menai Roundabout

Asesiad Traffig ac Asesiad Economaidd

Modelu Trafnidiaeth

Canfuwyd manteision amser teithiau'r ffordd osgoi trwy gymharu'r amodau traffig gyda'r Cynllun a hebdo.

Mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd i gyd yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau technegol fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata traffig i fodelu effaith y ffordd osgoi yn ystod y flwyddyn agor (2018) a'r flwyddyn ddylunio (2033).

Dangosir y llifoedd traffig beunyddiol dwy ffordd mewn lleoliadau allweddol yn nhabl 2.

Traffic and Economic Assessment

Transport Modelling

The journey time benefits of the bypass were determined by comparing the traffic conditions with and without the Scheme.

The methodologies applied are all compliant with technical standards and guidance as set out by Welsh Government.

A variety of traffic data was utilised to model the impact of the bypass in both the opening (2018) and design year (2033).

The estimated two-way daily traffic flows at key locations are shown in table 2.



Torri yn Nhy'n Llan Trosbont

Cutting at Ty'n Llan Overbridge

Rhagolwg Llifoedd Traffig Beunyddiol Cyfartalog Blynyddol				
Lleoliad	Blwyddyn Agor (2018)		Blwyddyn Ddylunio (2033)	
	Gwneud Cyn Lleied â Phosibl	Gwneud Rhywbeth	Gwneud Cyn Lleied â Phosibl	Gwneud Rhywbeth
Yr A487 bresennol yng nghyffiniau Bontnewydd	21,000	6,100	22,400	6,500
Yr A487 bresennol i'r De o Ganol Tref Caernarfon	16,700	9,100	17,300	9,400
Yr A487 bresennol i'r Gogledd o Ganol Tref Caernarfon	16,900	9,700	17,700	10,100
Ffordd ddi-ddosbarth rhwng Bontnewydd a Chylchfan Caeathro yr A4085	4,700	1,000	5,500	1,200
Yr A499 i'r De-orllewin o Gylchfan y Goat	5,500	8,400	6,200	9,000
Rhan 1 y Ffordd Osgoi: Cylchfan y Goat. – Ger Bontnewydd	-	17,800	-	19,100
Rhan 2 y Ffordd Osgoi: Bontnewydd – Cibyn	-	15,300	-	16,700
Rhan 3 y Ffordd Osgoi: Cibyn – Plas Menai	-	13,200	-	14,200

Tabl 2: Rhagolwg Llif Traffig – AADTau Dwy Ffordd

Forecast Annual Average Daily Traffic flows				
Location	Opening Year (2018)		Design Year (2033)	
	Do Minimum	Do Something	Do Minimum	Do Something
Existing A487 in vicinity of Bontnewydd	21,000	6,100	22,400	6,500
Existing A487 South of Caernarfon Town Centre	16,700	9,100	17,300	9,400
Existing A487 North of Caernarfon Town Centre	16,900	9,700	17,700	10,100
Unclassified road between Bontnewydd and the A4085 Caeathro Roundabout	4,700	1,000	5,500	1,200
A499 (SW) of Goat Roundabout	5,500	8,400	6,200	9,000
Bypass Section 1: Goat Roundabout – N. Bontnewydd	-	17,800	-	19,100
Bypass Section 2: Bontnewydd – Cibyn	-	15,300	-	16,700
Bypass Section 3: Cibyn – Plas Menai	-	13,200	-	14,200

Table 2: Forecast Traffic Flow – Two Way AADTs

Perfformiad Economaidd y Cynllun

Aseswyd perfformiad economaidd y Cynllun trwy gymharu'r costau (sy'n cael eu crynhoi yn Nhabl 1 yn gynharach yn y ddogfen hon) gyda'r manteision traffig a fyddai'n cael eu sicrhau. Mae'r manteision a ystyriwyd yn cynnwys arbedion o ran amser teithio a manteision o ganlyniad i ostyngiad i nifer y damweiniau ffordd a chânt eu crynhoi yn Nhabl 3 isod.

Canlyniadau Asesu (prisiau 2014, wedi'u gostwng i 2010) (£000oedd)	
Gwerth Presennol y Manteision	229,631
Gwerth Presennol y Costau	88,320
Gwerth Presennol Net	141,311
Cymhareb Costau a Manteision	2.6

Tabl 3: Perfformiad Economaidd

Caiff manteision cymharol y Cynllun eu hasesu gan ddefnyddio dadansoddiad cost a budd dros gyfnod gwerthuso o 60 mlynedd. Gall manteision ddeillio o welliannau i safonau ffyrdd, cynnydd i gyflymder cyfartalog a lleihad i hyd llwybrau. Caiff hyfywedd economaidd y Cynllun ei asesu gan ddefnyddio dau ffactor yn bennaf. Gwerth presennol net Cynllun yw'r manteision gwerth presennol a gyfrifwyd heb werth presennol y costau. Y gymhareb costau a manteision yw'r manteision gwerth presennol wedi'u rhannu gyda gwerth presennol y costau. Ystyrir bod Cynllun sydd â Gwerth Presennol Net >0 a Chymhareb Costau a Manteision >1 yn ddeniadol yn economaidd o safbwynt gwerthuso.

Mae Asesiad o'r Effaith Economaidd Ehangach wedi ei gynnal i roi dadansoddiad ansoddol cyffredinol o'r effaith economaidd ragweladwy yng Nghaernarfon a'r ardal o gwmpas. Daeth i'r casgliad y bydd y buddion economaidd yn niwtral yng nghydestun yr economi leol.

Economic Performance of the Scheme

The economic performance of the Scheme has been assessed by comparing the costs (summarised in Table 1 earlier in this document) with the traffic benefits that would be achieved. The benefits considered include journey time savings and benefits as a result of reductions in road accidents and are summarised in Table 3 below.

Assessment Results (2014 prices, discounted to 2010) (£000s)	
Present Value of Benefits (PVB)	229,631
Present Value of Costs (PVC)	88,320
Net Present Value (PVB – PVC)	141,311
Benefit Cost Ratio	2.6

Table 3: Economic Performance

The relative benefits of the Scheme are assessed using a cost benefit analysis over a 60 year appraisal period. Benefits can arise from improvements in road standards, increase in average speeds and reductions in route length. The economic viability of a Scheme is assessed mainly using two factors. The net present value (NPV) of a Scheme is the calculated present value benefits minus the present value cost. The benefit cost ratio (BCR) is the present value benefits divided by the present value costs. A Scheme which has a NPV >0 and a BCR >1 is considered to be economically attractive in appraisal terms.

A Wider Economic Impact Assessment (WEIA) has been undertaken to provide a general qualitative analysis of the forecast economic impact on the area in and around Caernarfon. It concluded that the economic benefits will be neutral within the context of the local economy.

Gallai rhai busnesau ddirodd effaith negyddol o ganlyniad i golli cwsmeriaid a fyddai'n digwydd pasio a byddai peth budd posibl i'r sectorau twristiaeth a manwerthu gyda mynediad gwell i dref Caernarfon o ganlyniad i'r gostyngiad mewn traffig. Mae'r ffordd osgoi yn rhoi hwylusydd newydd allweddol i Gaernarfon a'r ardal cefn gwllân o'i chwmpas i elwa ar gyfleoedd yng nghanol y dref ac yn y sector preifat.

Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd unrhyw sylwadau i ystyriaeth cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r Cynllun ai peidio, gyda neu heb addasiadau.

Yn dibynnu ar natur a nifer unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau a dderbynnir i'r Gorchmynion drafft cyhoeddedig, efallai y caiff Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol ei gynnal gerbron Arolygydd annibynnol.

Os caiff Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol ei gynnal, byddai pawb sydd wedi ymateb fel rheol yn cael eu hysbysu o fewn 4 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu a'r Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 22 wythnos o'r hysbysiad hwnnw. Byddai manylion llawn yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael eu cadarnhau a hysbysiadau'n ymddangos yn y wasg leol.

Byddai angen copïo'r holl ohebiaeth i'r Arolygydd a'i chadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad, sydd ar gael i'r cyhoedd. Byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i unrhyw gynnyg amgen ymarferol arall a dderbynnir o fewn terfyn amser i'w nodi yn yr Hysbysiad o'r Ymchwiliad Cyhoeddus.

Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bwrw ymlaen â'r Cynllun y cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol ar ei gyfer, yna mae'n rhaid iddynt gyhoeddi gwybodaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Priffyrdd (Aseiad o Effeithiau Amgylcheddol) 2007, y sylwadau a dderbynnir ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad.

Some businesses may suffer negative consequences through a loss of passing trade and there would be some potential gains to the tourism and retail sectors with improved accessibility to Caernarfon town centre resulting from the traffic reduction. The bypass provides Caernarfon and its hinterland with a key new facilitator to exploit opportunities both in the town centre and in the private sector.

What Happens Next?

The Welsh Ministers will take into consideration any representations before deciding whether or not to proceed with the Scheme, with or without modifications.

Depending on the nature and number of any objections and comments received to the published draft Orders, a Public Local Inquiry may be held before an independent Inspector.

If a Public Local Inquiry is to be held, all those who have responded would normally be notified within 4 weeks of the end of the objection period and the Inquiry held within 22 weeks of that notification. Full details of the Public Inquiry will be confirmed and notices will appear in the local press.

All correspondence will be copied to the Inspector and kept in the Inquiry Library which is available to the public. Publicity would be given to any feasible alternative proposal received within a time limit to be specified in the Public Inquiry Notice.

If the Welsh Ministers decide to proceed with the Scheme for which the ES has been published, they then must publish information about the consultation carried out, in compliance with The Highways (Environmental Impact Assessment) Regulation 2007, the representations received and any changes made as a result.

Linell Amser y Cynllun

Penodi contractwr	Cyhoeddi cynlluniau yn dangos y gofynion tir (Gorchmynion Drafft)		Dechrau'r dyluniad manwl	Cwblhau'r adeiladu	Cwblhau
Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus	Arddangosfeydd Gorchmynion Drafft				
↓	↓				
Datblygu, cynllunio a diweddarau Datganiad Amgylcheddol	Proses statudol ac ymchwiliad cyhoeddus os bydd eu hangen	Dyluniad manwl ac Adeiladu	Ôl-ofal 5 Mlynedd		
Rhagfyr 2014	Awst 2016	Haf 2017	Haf 2020	Haf 2025	

Scheme Time Line

Contractor Appointed	Publish plans showing land requirements (Draft Orders)	Start detailed design	Construction Completion	Completion
Public Information Exhibitions	Draft Orders Exhibitions			
↓	↓			
Develop design and update Environmental Statement	Statutory process and public inquiry if required	Detailed Design and Construction	5 Year Aftercare	
December 2014	August 2016	Summer 2017	Summer 2020	Summer 2025

Rhagor o Wybodaeth

Gellir edrych ar gopiau o'r Datganiad Amgylcheddol a'r Gorchmynion drafft sydd wedi'u cyhoeddi am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol trwy gydol y cyfnod gwrthwynebu fel y nodir yn yr Hysbysiad Cyhoeddus, yn y manau canlynol:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ
- Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH
- Llyfrgell Caernarfon, Lôn Pafiliwn, Caernarfon, LL55 1AS

Gellir prynu copïau o'r Datganiad Amgylcheddol o'r cyfeiriad canlynol:

Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Mae'r rhain fel a ganlyn:

Cyrol 1 (Adroddiad Asesiad Technegol) – £90

Cyrol 2 (Ffigurau) – £80

Cyrol 3 Rhannau A i C (Atodiadau Technegol) – £60 (y rhan)

Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol – £20.

Gellir prynu copïau electronig o'r Datganiad Amgylcheddol am bris o £5. Gellir cael rhagor o gopiau o'r Crynodeb Annhechnegol hwn am ddim gan Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a ddangosir uchod neu drwy'r gwefannau canlynol:

**www.llyw.cymru/trafnidiaeth
www.cbbypass.co.uk**

Further Information

Copies of the ES and draft Orders now published may be inspected free of charge during normal office hours throughout the objection period as set out in the Public Notice, at the following premises:

- Welsh Government Offices in Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
- Welsh Government Offices in Llandudno Junction, LL31 9RZ
- Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, LL55 1SH
- Caernarfon Library, Pavilion Hill, Caernarfon, LL55 1AS

Copies of the ES can be purchased from the following address:

Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

These are as follows:

Volume 1 (Technical Assessment Report) – £90

Volume 2 (Figures) – £80

Volume 3 Parts A to C (Technical Appendices) – £60 (per part)

Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) – £20.

Electronic copies of the ES can be purchased at a cost of £5. Further copies of this Stage 3 Scheme Assessment Report may be obtained free of charge from the Welsh Government at the address shown above or via the following website:

**www.gov.wales/transport
www.cbbypass.co.uk**

Eich Barn

Os byddwch yn dymuno cefnogi neu wrthwynebu'r Gorchmynion drafft neu'r Gorchmyn Pryn Gorfodol, neu wneud sylwadau arnynt neu wneud cynigion amgen, neu wneud sylw ar y Datganiad Amgylcheddol, dylech ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod.

**Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ.**

Dylid anfon yr holl ohebiaeth o'r fath i gyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn diwedd y cyfnod a nodir yn yr Hysbysiad Cyhoeddus fan bellaf.

Your Views

If you wish to support, comment or object to the draft Orders or Compulsory Purchase Order (CPO), put forward alternative proposals, or comment on the Environmental Statement you should write to the Welsh Government at the address below.

**Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park,
Cardiff CF10 3NQ.**

All such correspondence should be sent to arrive at the Welsh Government no later than the end of the period as set out in the Public Notice.



**FFORDD OSGOI
A487 CAERNARFON A
BONTNEWYDD**

Adroddiad Asesu Cynllun Cam 3

Awst 2016

**A487 CAERNARFON
AND BONTNEWYDD
BYPASS**

Stage 3 Scheme Assessment Report

August 2016